**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-934
Ein cyf/Our ref KS/08713/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynglŷn â'r ddeiseb am Drafnidiaeth Gyhoeddus ym Mlaenau Gwent.

Rydym yn bwrw ymlaen â'n gweledigaeth uchelgeisiol i ail-lunio seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ym Mlaenau Gwent, gan gynnwys gwasanaethau bysiau lleol, llinell reilffordd hynod boblogaidd Glynebwy, teithio llesol, a thrwy'r pwerau ychwanegol y bwriedir eu cyflwyno o dan Fil Bysiau (Cymru).

Ers 15 Rhagfyr, mae teithwyr ar linell reilffordd Glynebwy yn teithio ar drenau Dosbarth 170 mwy modern â phedwar cerbyd. Mae'r trenau hyn yn cynnig gwell profiad i gwsmeriaid, gan gynnwys gwybodaeth electronig i deithwyr, system aerdymheru, socedi pŵer a mwy o gapasiti. O 2022 ymlaen, bydd Trafnidiaeth Cymru (TC) yn cyflwyno trenau newydd sbon ym Mlaenau Gwent, sy'n rhan o fuddsoddiad o £800 miliwn.

Mae TC wedi cynnal astudiaeth o Linell Reilffordd Glynebwy ar ran Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau amlach a darparu gwasanaeth newydd rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal ar y cyd â Network Rail, sy'n rheoli seilwaith y llinell. Nod yr astudiaeth yw deall y cyfleoedd a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â rhedeg hyd at bedwar trên yr awr ar y llinell hon, yn ogystal â deall pa waith sydd ei angen er mwyn gwneud hynny. Bydd rhagor o fanylion ar gael cyn hir am y cynlluniau ar gyfer y llinell hon yn y dyfodol.

Mae Cyngor Blaenau Gwent wrthi ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth Cam 1 WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) ar gyfer ardal Abertyleri, gan ddefnyddio cyllid a gafodd oddi wrth Lywodraeth Cymru o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol. Mae'r astudiaeth hon

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn ystyried y materion allweddol a'r cyfleoedd yn y cwm ac yn nodi ymyriadau posibl ym maes trafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny a chyflawni'n hamcanion llesiant.

O ran gwasanaethau bysiau, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £25 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ers 2013 drwy'n Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG), sy'n grant yn ôl disgresiwn, i'w helpu i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Mae hynny'n gryn gamp o gofio bod y setliadau ariannol a geir oddi wrth Lywodraeth y DU yn parhau i fod yn rhai heriol. Mae pob awdurdod lleol yn penderfynu pa wasanaethau i'w cefnogi, gan wneud hynny ar sail ei asesiad o amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

Byddwn hefyd yn cyflwyno Bil Bysiau (Cymru) yn ystod tymor presennol y Cynulliad, gan ddatblygu'r cynigion yn y Papur Gwyn 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'. Ymhlith y darpariaethau yn y Bil y mae rhai sy'n ymdrin â gwell trefniadau rhwng gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth; masnachfreinio; a gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdodau lleol. Bydd y Bil hefyd yn sefydlu trefniadau newydd ar gyfer rheoli a rhannu gwybodaeth, fel y bo gwybodaeth i'r cyhoedd yn fwy dibynadwy ac ar gael yn fwy hwylus, ac fel y bo awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn y Bil yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r effeithiau negyddol y mae dadreoleiddio wedi'u cael ar ddefnyddwyr, gweithredwyr ac awdurdodau, drwy greu nifer o ffyrdd i'r awdurdodau lleol ymyrryd os byddant yn dewis gwneud hynny.

Yn rhan o'r rhaglen hon o ddiwygio gwasanaethau bysiau, rydym hefyd yn bwriadu dechrau ar bedwar cynllun peilot byw er mwyn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynigion ar Deithio Ymatebol Integredig sy'n cael eu rheoli gan TC ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr. Mae'r cyllid ar eu cyfer yn rhan o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, sy'n werth £24 miliwn. Bydd un o'r cynlluniau peilot hynny'n cael ei gynnal yn ardal Blaenau Gwent. Bydd y cynlluniau peilot yn treialu modelau gwahanol o alw am wasanaethau bysiau a, lle bo hynny'n briodol, yn adeiladu ar fodelau cyflenwi sy'n bodoli eisoes. Bydd canlyniadau'r cynlluniau peilot yn cael eu dadansoddi ac yn helpu i lywio'r gwaith a gaiff ei wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn i ddatblygu gwasanaethau teithio a fydd yn ymateb i'r galw. Gan ddibynnu ar lwyddiant y cynlluniau peilot, bydd penderfyniad yn cael ei wneud wedyn ar sefydlu trefniant parhaol.

Gwnaethom hefyd gefnogi'r awdurdodau lleol drwy Grantiau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Gellir cyflwyno ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Teithio Llesol, y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Rydym wedi dyfarnu £850,000 i Gyngor Blaenau Gwent yn 2019-20 ar gyfer cynlluniau teithio llesol, llwybrau diogel i'r ysgol a gwella'r seilwaith safleoedd bysiau.

Hyderaf y bydd hyn o gymorth wrth ichi ystyried y ddeiseb, ac edrychaf ymlaen at gael gwybod am y canlyniad.

Yn gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport